**Cyfarfod Llawn 2000-2001 (66)**
**Dydd Iau, 3 Mai 2001**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Eitem 1**
**Etholiadau**

*Bydd y Trefnydd yn gwneud cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn gerbron y Cynnig Heb Ddyddiad Trafod canlynol a gyflwynwyd ar 1 Mai 2001*

*NNDM646* Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol a Rheol Sefydlog 9.3, yn ethol Christine Gwyther (Llafur) i Banel Cadeiryddion Pwyllgorau Pwnc yn lle Val Feld (Llafur).

*NNDM647* Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 9.3, yn ethol Christine Gwyther (Llafur) yn Gadeirydd ei Bwyllgor Datblygu Economaidd yn lle Val Feld (Llafur), sy'n dal i fod yn aelod o'r Pwyllgor .

*NNDM648* Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn ethol Rod Richards (Ceidwadwr) i'w Bwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Eitem 2**
**Cwestiynau Llafar i Mike German, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 3**
**Cwestiynau Llafar i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 4**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru** *(wedi’i symud 5 Ebrill)*

*Caiff cynnig trefniadol ei gynnig gan y Trefnydd o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn ymlaen y Cynnig a ganlyn sy’n wahanol i’r gwaith y cytunwyd arno yn y Rhagolwg ar 3 Ebrill*

*NDM617* **-** Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn mynegi pryder mawr ynghylch methiant y

Weinyddiaeth Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol i sicrhau cyllid sy'n ychwanegol at Floc Barnett gan drysorlys y DU er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau:

- Llifogydd mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru yn ystod Hydref 2000
- Y diswyddiadau posibl yn y diwydiant dur
- Clwy'r Traed a'r Genau a'i effaith ar yr economi wledig

Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*

(1)+(3)

(2)

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

*Ar linell 1, ar ôl 'ynghylch', dileer gweddill y testun a rhoi yn ei le y ddau bwynt bwled canlynol:*

*1. methiant y Weinyddiaeth Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol i sicrhau cyllid sy'n ychwanegol at Floc Barnett gan drysorlys y DU er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau:*

- Llifogydd mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru yn ystod Hydref 2000
- Y diswyddiadau posibl yn y diwydiant dur
- Clwy'r Traed a'r Genau a'i effaith ar yr economi wledig

2. y sylwadau y dywedwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn Llywodraeth y DU eu gwneud bod Cymru yn derbyn mwy o arian cyhoeddus na'i haeddiant trwy Floc Barnett.

**2. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ar ôl y pwynt bwled olaf, ychwanegu paragraff newydd:

Er mwyn atal dirywio pellach yn y lleoedd hyn ac yn economi Cymru yn ehangach, yn galw ar y Weinyddiaeth i adael unrhyw gynlluniau i gyflwyno treth fusnes leol.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu'r canlynol at ddiwedd y cynnig:

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol at hynny yn galw ar y Weinyddiaeth Lafur a’r Democratiaid Rhyddfrydol i gychwyn trafodaethau â Llywodraeth y DU i adolygu Fformwla Barnett fel y pennir yr adnoddau a ddyrennir ar gyfer Bloc Barnett yn ôl fformwla sy’n seiliedig ar angen.

**Eitem 5**
**Dadl Fer:** *NDM533* **Janice Gregory (Ogwr); "Troseddu: Nid Argraff yn Unig"** *(wedi’i symud 15 Chwefror)*

**Eitem 6**
**Dadl Fer:** *NDM637* **Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr); Rwyf in Ddinesydd o Gymru AC o’r Byd**

**Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm.**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 8 Mai 2001**

**E P Silk**
**Clerc y Cynulliad**